



# Cyfamod Cymunedol

## **CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG**

RHWNG

**CYNGOR SIR DDINBYCH, CYNRYCHIOLWYR Y SECTORAU ELUSENNOL  
A GWIRFODDOL, CYMUNED SIFILIAID SIR DDINBYCH**

**A**

**CHYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YN SIR DDINBYCH**


**Llofnodwyd a lansiodwyd y Cyfamod yng Nghanolfan y  
Fyddin Diriogaethol, Prestatyn  
ar**

**2 Gorffennaf 2013**

**Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cytuno i weithio a gweithredu gyda'n gilydd i anrhydeddu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.**

**Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Ddinbych**


Llofnod:



Enw: Councillor Raymond Bartley

Swydd: Chairman of Denbighshire County Council

Llofnod:




Enw: Andrew Bowden

Swydd: Chairman of the Conwy & Denbighshire Local Service Board

**Llofnodwyd ar ran Cymuned Y Lluoedd Arfog**


Llofnod:



Enw: Thomas. R. Herman OBE

Swydd: Commander (Royal Navy)


Llofnod:



Enw: Patrick Norrington-Davies

Swydd: Lieutenant Colonel (Army)

Llofnod:



Enw: Adrian Williams

Swydd: Air Commodore (RAF)

**Llofnodwyd ar ran Elusennau'r Lluoedd Arfog**

Llofnod:



Enw:

Peter Kingston OBE  
Ar rhan Royal British Legion


Llofnod:



Enw:

Maurice Sambrook  
Ar rhan SSAFA

Llofnod:




Enw:

Tony Phillips  
Ar rhan Combat Stress


**Llofnodwyd ar ran Sefydliadau Partneriaeth**

Llofnod:

Enw: Tanya Bowyer  
Citizens Advice Bureau



Llofnod:



Enw: Nerys Biddulph MBE  
Trustee of Denbighshire Voluntary Services Council

Llofnod:




Enw: Debbie Rogers  
Job Centre Plus

Llofnod:



Enw: Councillor David Jones  
Mayor of Prestatyn Town Council

Llofnod:




Enw: Hillary Owen  
Betsi Cadwalader University Health Board

Llofnod: 

Enw: Principal Deeside College

Llofnod:

Enw: Chief Inspector Jo Ramessur-Williams  
North Wales Police Service



Llofnod: 

Enw: Assistant Chief Fire Officer Richard Fairhead  
North Wales Fire & Rescue Service

## **ADRAN 1: CYFRANOGWYR**

### **1.1 Gwnaed y Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog hwn rhwng:**

Aelodau sy'n gwasanaethu a chyn aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Ddinbych

**A**

Chyngor Sir Ddinbych

**A'r**

Sector Elusennol a Gwirfoddol

## **ADRAN 2: EGWYDDORION CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG**

2.1 Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn ddatganiad gwirfoddol o gefnogaeth i'r naill a'r llall rhwng cymuned sifiliaid a'i chymuned Lluoedd Arfog lleol. Y bwriad yw ategu'r cyfamod Lluoedd Arfog sy'n amlinellu'r rhwymedigaeth foesol rhwng y Genedl, y Llywodraeth a'r Lluoedd Arfog, ar lefel leol.

2.2 Pwrpas y Cyfamod Cymunedol yw annog cefnogaeth ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Ddinbych a chynabod a chofio'r aberthau a wnaed gan aelodau'r Gymuned Lluoedd Arfog, yn enwedig y rhai a roddodd y mwyaf. Mae'n cynnwys aelodau sy'n gwasanaethu a chyn aelodau, eu teuluoedd a'u gweddwon yn Sir Ddinbych.

2.3 Ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych a'r sefydliadau partneriaeth, mae'r Cyfamod Cymunedol yn cynnig cyfle i ddod â'u gwybodaeth, profiad ac arbenigedd i ddarparu cymorth a chyngor i aelodau'r Gymuned Lluoedd Arfog. Mae hefyd yn gyfle i gyfrannu at y gwaith da presennol ar gynlluniau eraill.

2.4 Ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog, mae'r Cyfamod Cymunedol yn annog integreiddio bywyd gwasanaeth a bywyd sifiliaid ac yn annog aelodau'r gymuned Lluoedd Arfog i helpu eu cymuned leol.

## **ADRAN 3: AMCANION A BWRIADAU CYFFREDINOL**

### **Nodau'r Cyfamod Cymunedol**

3.1 Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn ategu egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog sy'n diffinio'r egwyddorion parhaus, cyffredinol a ddylai lywodraethu'r berthynas rhwng y Genedl, y Llywodraeth a chymuned y Lluoedd Arfog.

3.2 Ei nod yw annog pawb yn y gymuned i roi cefnogaeth i'r gymuned Lluoedd Arfog leol a'i gwneud yn haws i weithwyr y gwasanaeth, eu teuluoedd

a chyn aelodau i gael y gymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael gan yr MOD, gan ddarparwyr statudol a gan y Sector Elusennol a Gwirfoddol. Mae'r sefydliadau hyn eisoes yn cydweithio mewn partneriaeth ar lefel leol.

3.3 Nod y cynllun yw bod yn drefniant dwy ffordd ac anogir y gymuned Lluoedd Arfog i wneud cymaint ag y gallent i gefnogi eu cymuned a hybu gweithgareddau sy'n integreiddio'r gymuned Gwasanaeth i fywyd sifiliaid.

#### **ADRAN 4: Mesurau**

4.1 Mesurau Penodol i'w cymryd i sicrhau bod Sir Ddinbych yn cefnogi Gwasanaethau'r Lluoedd Arfog mewn modd pendant.

- ❖ Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig gostyngiad Treth y Cyngor i weithwyr y Lluoedd Arfog sydd ag ail gartrefi yn Sir Ddinbych ond yn byw mewn llety MOD.
- ❖ Bydd teuluoedd gweithwyr Gwasanaeth y DU a Gweision eraill y Goron yn symud yn aml o amgylch Prydain a thramor, yn aml ar fyr rybudd. Bydd Sir Ddinbych yn gwneud yn siŵr bod anghenion plant y teuluoedd hyn yn cael eu hystyried a bydd llefydd mewn ysgolion yn cael eu rhoi i blant a'u teuluoedd cyn y flwyddyn ysgol sydd i ddod os bydd llythyr Gweinidogaeth Amddiffyn (MOD) neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) yn nodi'r dyddiad dychwelyd.
- ❖ Bydd gweithwyr Gwasanaeth sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn Sir Ddinbych ac sydd â phleidlais bost gyda chyfeiriad BPFO yn cael blaenoriaeth mewn unrhyw etholiad a byddant yn cael eu hanfon i'r Adran Gwasanaethau Etholiadol yng Nghyngor Bwrdeistref Rushmoor yn Hampshire i'w cydlynu ar gyfer pob awdurdod lleol yn y DU.
- ❖ Bydd aelodau presennol y Lluoedd Arfog ac aelodau'r Fyddin Diriogaethol yn cael gostyngiad wrth ddefnyddio Canolfannau Hamdden y Cyngor a'u cyfleusterau.
- ❖ Dan y Gorchymyn Unigolion Digartref (Anghenion Blaenoriaeth) (Cymru) 2001, mae gan unigolyn sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron ac sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd arfog Anghenion Blaenoriaeth.
- ❖ Bydd Sir Ddinbych yn cynnig cyngor a chefnogaeth tai rhagweithiol trwy ein tîm dewisiadau digartrefedd ac yn rhoi cefnogaeth i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gyn aelodau lluoedd arfog EM.

- ❖ Mae Polisi Dyrannu newydd Sir Ddinbych yn rhoi'r nifer uchaf o bwyntiau meddygol i gyn aelodau lluoedd arfog sydd wedi'u hanafu/yn anabl, gan hyrwyddo mynediad i lety addas a fforddiadwy ar gyfer cyn aelodau a'u teuluoedd.
- ❖ Bydd aelodau a chyn aelodau yn cael blaenoriaeth ar gyfer y cynllun 'Cymorth Prynu', gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau ariannol unigol a rheolau benthyca y benthycwyr.
- ❖ Tîm Partneriaethau a Chymunedau Cyngor Sir Ddinbych fydd y swyddogion cyswllt dynodedig gyda Gwasanaethau'r Lluoedd Arfog a'r gymuned wrth ddiwallu nodau'r Cyfamod.
- ❖ Mae gan Sir Ddinbych Aelod Cabinet y mae swyddogaeth Cefnogwr Gwasanaethau'r Lluoedd Arfog yn rhan o'i 'bortffolio'.
- ❖ Bydd gan wefan y Cyngor dudalen benodedig i'r gymuned Lluoedd Arfog gan roi cyngor am wasanaethau sydd ar gael a dolenni cyswllt i ddarparwyr eraill a sefydliadau lles.
- ❖ Bydd y Cyngor yn adolygu ei wasanaethau yn rheolaidd mewn perthynas â'r Cyfamod, ac yn gweithredu gwell darpariaeth gwasanaethau i gymuned Gwasanaethau'r Lluoedd Arfog.



## CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Cyfamod Parhaus Rhwng

Pobl y Deyrnas Unedig  
Llywodraeth Ei Mawrhydi

– a –

Phawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd  
Arfog  
y Goron

a'u Teuluoedd

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r cyfrifoldeb ar ran y Llywodraeth, gan aberthu agweddau o ryddid sifiliaid, wynebu perygl a, weithiau, yn dioddef anafiadau difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i'w dyletswydd. Mae teuluoedd hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hyn, mae gan y genedl gyfan gyfrifoldeb moesol i aelodau'r Gwasanaeth Llyngesol, y Fyddin a'r Llu Awyr, a'u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, a thriniaeth deg.

Ni ddylai unigolion sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, Arferol neu Wrth Gefn, unigolion sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, na'u teuluoedd, wynebu anfantais o'i gymharu â dinasyddion eraill wrth gael darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig i unigolion sydd wedi rhoi'r mwyaf, fel y rhai sydd wedi'u hanafu a'r rhai sydd wedi cael profedigaeth.

Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys y gymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusenol, sefydliadau preifat, a champau gweithredu unigolion sy'n cefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod yr unigolion sydd wedi cyflawni dyletswydd milwrol yn uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad. Does dim ffordd well o fynegi hyn na thrwy gefnogi'r Cyfamod hwn.